

## **Briffiad: Caethwasiaeth Fodern / Masnachu Pobl**

Mae caethwasiaeth fodern yn drosedd difrifol a chreulon lle mae pobl yn cael eu trin fel nwyddau ac y camfanteisir arnynt er elw troseddol. Cyflwynodd Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ddarpariaethau sy'n ymestyn y cymorth ac amddiffyniad a fodolai eisoes ar gyfer dioddefwyr masnachu pobl i ddioddefwyr caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur dan orfod a gorfodol.

Ers mis Tachwedd 2015, mae ar awdurdodau statudol a sefydliadau anllywodraethol penodedig **Ddyletswydd statudol i Hysbysu**'r Ysgrifennydd Gwladol am unrhyw unigolyn y deuir ar ei draws yng Nghymru y maent yn credu ei fod yn ddioddefwr amueuedig caethwasiaeth neu fasnachu pobl.

Gellir cyflawni'r ddyletswydd hon trwy lenwi ffurflen **Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol**, sy'n broses adnabod a chynorthwyo dioddefwyr. Dim ond Ymatebwyr Cyntaf dynodedig all atgyfeirio achosion at y Mekanwaith.

**Ymatebwyr cyntaf** yw'r awdurdodau statudol a chyrrff anllywodraethol penodedig y mae arnynt gyfrifoldeb i adnabod dioddefwyr posibl ac atgyfeirio'r achosion hyn at y Mekanwaith. Yng Ngwent, dyma'r sefydliadau allweddol:

- Awdurdod Lleol
- Heddlu
- BAWSO
- Barnardo's
- New Pathways
- Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur
- Byddin yr Iachawdwriaeth

Mae **hyfforddiant** ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl i staff rheng flaen ar gael trwy'r canlynol:

### Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru

- Modiwl arbenigol o dan Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

### Timau Datblygu'r Gweithlu

**Canllawiau Polisi:** Mae **Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan** yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae dau ganllaw ategol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl yn cael eu datblygu a chânt eu cyhoeddi maes o law:

- Gweithdrefnau ar gyfer plant sydd mewn perygl o Fasnachu Pobl
- Gweithdrefnau ar gyfer plant sydd mewn perygl o Gamfanteisio Troseddol

Mae **Papur Briffio Polisi Caethwasiaeth Fodern** Cymru gyfan ar gael trwy'r ddolen isod a cheir ynddo hyperddolenni i ddogfennau cyfeirio allweddol; mae'n cynnwys Llwybr Ymateb i Ddioddefwyr Cymru y cytunwyd arno.

<https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=1771>

Isod mae'r dolenni i wefannau'r Bwrdd Diogelu ar gyfer plant ac oedolion:

<http://www.sewsc.org.uk>

<http://www.gwasb.org.uk>